

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Roedd yr adborth gan gleifion yn gadarnhaol ar y cyfan ym mhob arolygiad. Teimlai cleifion eu bod yn cael eu trin â pharch gan staff, ac roedd ansawdd y gofal a gafwyd yn dda.

Roeddem yn falch o weld tystiolaeth o waith amlddisgyblaethol effeithiol yn rhai o'n harolygiadau, yn enwedig yn ystod ein harolygiadau o feddygfeydd a gwasanaethau iechyd meddwl.

Bu lefelau ymgysylltu'r bwrdd iechyd yn dda drwy gydol 2018-19, gan ymateb yn brydlon i'n ceisiadau am gynlluniau gwella. Gwnaeth y bwrdd iechyd hefyd ymateb yn brydlon i unrhyw bryderon a gawsom drwy ein proses pryderon.

Yn anffodus, nodwyd nad oedd camau gweithredu bob amser yn cael eu cymryd yn dilyn arolygiadau blaenorol AGIC, ac mae hyn wedi bod yn arbennig o amlwg yn y ddau arolygiad o wasanaethau iechyd meddwl yn 2018-19.

Er i ni fynegi pryder nad oedd digon o gawodydd yn Ysbyty St Cadoc yn ystod ein harolygiad blaenorol ym mis Hydref 2016, dim ond dwy gawod oedd ar gael o hyd ar ward Adferiad pan wnaethom gynnal arolygiad arall ym mis Tachwedd 2018. Roedd llawr a waliau'r ddwy gawod wedi eu staenio, ac roedd ffwngws i'w weld o amgylch y ffenestri.

Hefyd, cafodd nifer o'r materion a godwyd yn ein harolygiad o Ysbyty'r Sir, Pont-y-pŵl yn 2017 eu codi eto mewn arolygiad yn 2018. Nodwyd nad oedd Cynlluniau Gofal a Thriniaeth yn cael eu cwblhau'n llawn o hyd, ac nid oedd y system larwm bersonol yn addas at y diben.

Cyflwynwyd tri llythyr sicrwydd uniongyrchol i'r bwrdd iechyd yn 2018-19 a chawsom ddigon o sicrwydd ynghylch y materion a godwyd. Golygai hyn fod gwelliannau wedi cael eu gwneud neu fod cynnydd yn cael ei wneud i sicrhau diogelwch cleifion.

Mae problemau ar draws y bwrdd iechyd o ran darparu hyfforddiant a sicrhau ei fod yn gyfredol, yn ogystal â safon gyffredinol cadw cofnodion.

Ysbytai

Gwnaethom arolygu dau ysbyty: Ysbyty Aneurin Bevan (dwy ward) ac Ysbyty Brenhinol Gwent (llawfeddygol)

- | | |
|--|--|
| ✓ Roedd y cleifion yn canu clodydd y staff oedd ynghlwm wrth ddarparu eu gofal a'u triniaeth | ✗ Roedd problemau o ran lefelau staffio yn y ddau ysbyty |
| ✓ Roedd y cleifion yn cael cymorth priodol ac yn cael eu monitro adeg prydau bwyd | ✗ Roedd angen gwella hyfforddiant staff |
| ✓ Roedd systemau arwain a rheoli cryf ar waith yn y ddau ysbyty | |

Iechyd Meddwl

Cynhaliwyd dau arolygiad o wasanaethau iechyd meddwl yn 2018-19, yn Ysbyty St Cadoc ac Ysbyty Sirol

- | | |
|--|---|
| ✓ Cawsai'r cleifion eu trin â pharch a gofal | ✗ Problemau o ran ceisiadau a dogfennaeth o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl |
| ✓ Roedd mynediad da i weithgareddau dan do ac yn yr awyr agored | ✗ Heb weithredu argymhellion o arolygiadau blaenorol |
| ✓ Cyfathrebu effeithiol rhwng staff a thimau | ✗ Nid oedd systemau larwm y naill ysbyty na'r llall yn addas at y diben ac nid oedd hyn yn creu lleoliad diogel i'r staff na'r cleifion |
| ✓ Defnydd da o gyfarfodydd i gynllunio a throsglwyddo dyletswyddau | |

Deintyddfeydd

Gwnaethom arolygu 14 o ddeintyddfeydd

- | | |
|--|---|
| ✓ Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn hapus iawn â'u gofal a'u triniaeth. | ✗ Cofnodion cleifion ddim bob amser yn cael eu cadw'n gywir na'u storio'n ddiogel |
| ✓ Cawsai'r cleifion eu trin ag urddas a pharch | ✗ Staff ddim yn cwblhau hyfforddiant perthnasol yn gyson |
| ✓ Trefniadau priodol ar gyfer y defnydd diogel o belydrau-x | ✗ Gellid gwella gwybodaeth i gleifion a dosbarthu taflenni i gleifion. |

Meddygfeydd

Gwnaethom arolygu dwy feddygfa

- | | |
|--|--|
| ✓ Cafwyd sylwadau cadarnhaol gan y cleifion am y gwasanaeth a ddarparwyd | ✗ Gwelliannau i gofnodion cleifion a chadw cofnodion hyfforddiant staff er mwyn sicrhau na chaiff dyddiadau adnewyddu eu methu |
| ✓ Roedd y staff yn gwrtais wrth ymdrin â chleifion ac ymwelwyr | ✗ Hyrwyddo a defnyddio'r gwasanaeth hebryngwr yn fwy. |
| ✓ Cyfathrebu da rhwng timau'r meddygfeydd | |

Rheoliadau Ymbelydredd Ìoneiddio (Amlygiad Meddygol)

Gwnaethom gwblhau un arolygiad o'r fath yn Ysbyty Brenhinol Gwent

- | | |
|--|--|
| ✓ Gwnaeth y cleifion sylwadau cadarnhaol am y gwasanaethau a ddarparwyd gan yr adran | ✗ Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau ei fod yn cynnal urddas, preifatrwydd a diogelwch cleifion a gaiff eu cludo i gilfach ddal ardal cleifion mewnol yr adran |
| ✓ Roedd y cleifion yn teimlo'n rhan o unrhyw benderfyniadau ynghylch eu gofal | ✗ Mae angen diweddarau agweddau ar weithdrefnau y cyflogwr dan y rheoliadau a sicrhau eu bod yn cael eu datblygu a'u mabwysiadu'n ffurfiol |
| ✓ Dangosodd y staff ymwybyddiaeth dda o'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ymbelydredd ìoneiddio a'u cyfrifoldebau yn hyn o beth | ✗ Mae angen i gofnodion hyfforddi a hawliau staff gael eu cwblhau'n gywir, eu llofnodi a'u dyddio gan yr hyfforddai, a'u gwrthlofnodi gan yr hyfforddwr at ddibenion dilysu. |

Iechyd Meddwl Cymunedol

Gwnaethom arolygu Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol Gogledd Sir Fynwy

- | | |
|---|---|
| ✓ Roedd yr adborth gan ddefnyddwyr y gwasanaeth am eu gofal a'u triniaeth yn gadarnhaol ar y cyfan | ✗ Amgylchedd defnyddwyr y gwasanaeth |
| ✓ Roedd y staff yn ymrwymedig i gynig profiad cadarnhaol i ddefnyddwyr y gwasanaeth mewn amgylchedd anodd | ✗ Gwybodaeth i ddefnyddwyr y gwasanaeth, gan gynnwys gwasanaethau eirioli a phrosesau a gweithdrefnau cwyno |
| ✓ Cynhaliwyd asesiadau o ddefnyddwyr y gwasanaeth mewn modd amserol | ✗ Rhai agweddau ar iechyd a diogelwch, gan gynnwys asesiadau risg o bwyntiau clymu |
| ✓ Gwelsom dystiolaeth o waith tîm da rhwng disgyblaethau proffesiynol. | ✗ Elfennau o'r hyn a gofnodir mewn cofnodion gofal, er mwyn sicrhau bod y tîm i gyd yn cyrraedd safon uchel gyson |
| | ✗ Prosesau a gweithdrefnau rheoli er mwyn gwella gwaith integredig. |